

## Ysgrifennu cudd

Bydd plant wrth eu bodd gyda'r syniad o greu negeseuon cyfrinachol felly beth am roi cynnig ar y gweithgaredd hudol hwn a gweld beth yw'r canlyniadau?

### Byddwch angen:

- Papur
- Creon gwyn neu gannwyll
- Paent dyfrlliw a brws paent
- Dŵr (ar gyfer y paent)

### Dull:

- Defnyddiwch y creon gwyn/cannwyll, gofynnwch i'ch plentyn ysgrifennu ei enw/au, neges neu dynnu llun ar y papur

# DYSGU DRWY CHWARAE - Ysgrifennu cudd

- Gall hyn ymddangos yn anodd gan ei bod yn anodd gweld y creon/cannwyll wrth iddynt ysgrifennu/tynnu llun ond gall ei wneud o dan olau llachar helpu gan fod y golau yn adlewyrchu oddi ar y cŵyr
- Unwaith y bydd yr ysgrifennu/llun wedi'i wneud mae'n amser paentio drosto
- Bydd eich plentyn angen defnyddio trwch paent dyfrllyd iawn - ond gall ddefnyddio unrhyw baent a ddymunir
- Wrth iddynt baentio dros y papur bydd yr ysgrifen/llun cudd yn ymddangos fel hud!

## Manteision y gweithgaredd hwn:

- Bydd yn helpu i ddatblygu creadigrwydd a dychymyg eich plentyn

